**LC570**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**
**Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2002**

Mae’r prif reoliadau yn nodi’r prawf moddion ar gyfer penderfynu ar faint o grant adnewyddu a grant cyfleusterau i’r anabl sy’n daladwy gan yr awdurdodau tai lleol.

Mae’r rheoliadau presennol yn gwneud diwygiadau canlyniadol i’r prif reoliadau yn dilyn newidiadau i Reoliadau Budd-dal Tai (Cyffredinol) 1987.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes unrhyw bwyntiau i’w hadrodd o dan Reol Sefydlog 11.5.

**Sylwadau**

Tynnwyd rhai pwyntiau teipograffyddol a phwyntiau tebyg at sylw y rhai sy’n gyfrifol am brosesu’r offeryn hwn er mwyn iddynt gael eu cywiro yn y fersiwn argraffedig.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

26 Tachwedd 2002